**Sesiwn 2000 - 2001 Rhif 47**

# PAPURAU BUSNES

## DYDD MAWRTH, 30 IONAWR 2001

## RHAN 1 - ADRAN A

## AGENDA

Bydd y cyfarfod yn cychwyn am 2pm

**Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru** (30 munud)
Mae rhestr o'r Cwestiynau Llafar ar y Fewnrwyd (a Gwe'r Siambr)

**Datganiad Busnes: Y Trefnydd**

**Cynnig i gymeradwyo'r Datganiad Busnes 3 mis**
Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol yn nodi'r amserlen 3 mis arfaethedig ar gyfer busnes y Cynulliad a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 10 Ionawr 2001, o dan reol sefydlog 5.1.

**Dadl ar Ddatblygiad Proffesiynol Athrawon**
Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol yn croesawu'r camau a gymerwyd o ran targedau gwellcymru.com i sicrhau 'safonau addysgu uwch drwy well hyfforddiant mewn swydd, ffocws cliriach ar ddatblygiad proffesiynol Penaethiaid, fframwaith newydd i gydnabod perfformiad athrawon a sefydlu Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru'. (ar gael ar y fewnrwyd yn: http://newsite.wales.gov.uk/themesbetterwales/content/strategicplan/toc-e.htm)

**Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:**
Yn unol â'r canllawiau diwygiedig ar Grwpio, Dewis a Gwrthod Gwelliannau, mae'r Llywydd wedi penderfynu grwpio'r gwelliannau fel a ganlyn at ddibenion trafodaeth – ond bydd y pleidleisiau'n cael eu cymryd yn unigol.

(1+2+4+5+6+7)

(3)

**Gwelliant 1 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru);**

Ychwanegu ar ôl ‘Cynulliad Cenedlaethol’ "yn mynegi’i bryder am recriwtio athrawon a’r penderfyniad i wrthod rhoi cyflogau i raddedigion sy’n hyfforddi i fod yn athrawon ysgolion cynradd."

**Gwelliant 2 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru);**
Dileu ‘croesawu’ a phob peth sy’n dod ar ei ôl ac ychwanegu:

"yn galw am werthusiad o effeithiolrwydd yr hyfforddiant mewn swydd cyfredol mewn perthynas â chodi safonau dysgu."

**Gwelliant 3 - William Graham (Dwyrain De Cymru);**
Ar ôl "Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru" rhoi:

"ond yn nodi bod y Weinyddiaeth Lafur/Rhyddfrydol yn methu gwireddu ei addewid yn *Rhoi Cymru’n Gyntaf* i ddarparu "*Cynllun Cyflog ar sail Rheoli Perfformiad ar gyfer athrawon, a hwnnw wedi ei wahanu oddi wrth berfformiad disgyblion mewn arholiadau".*

**Gwelliant 4 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru);**
Ychwanegu ar ddiwedd y cynnig fel pwynt bwled newydd:

"yn galw am adolygiad cynhwysfawr o’r trefniadau presennol ar gyfer cyngor a HMS i athrawon"

**Gwelliant 5 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru);**
Ychwanegu ar ddiwedd y cynnig fel pwynt bwled newydd:

"yn nodi’r diffygion difrifol yn y fframwaith ar gyfer tâl yn ôl perfformiad"

**Gwelliant 6 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru);**
Ychwanegu ar ddiwedd y cynnig fel pwynt bwled newydd:

"yn nodi sefydliad y Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru ac yn cydnabod yr angen i ganolbwyntio ar ddatblygiad proffesiynol penaethiaid"

**Gwelliant 7 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru);**
Ychwanegu ar ddiwedd y cynnig fel pwynt bwled newydd:

"yn cymeradwyo ymrwymiad proffesiynol ac arbenigedd athrawon wrth godi safonau mewn amgylchiadau heriol."

**Bydd y cyfarfod yn dod i ben am 5.30pm**

**************

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad**

**am 9.05am ddydd Iau, 1 Chwefror 2001**

**J W Lloyd**

**Clerc y Cynulliad**